Unwaith i'r holl bleidleisiau dilys ac unrhyw bleidleisiau a wrthodwyd gael eu hychwanegu at ei gilydd a'u gwirio yn erbyn y cyfanswm o bapur pleidleisio o gam cyntaf y cyfrif, bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn rhannu'r canlyniadau dros dro gyda'r ymgeiswyr a'u hasiantiaid.

Ar y cam yma, gall ymgeisydd neu eu hasiant ofyn i ailgyfrif y pleidleisiau. Gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wrthod y cais os credant ei fod yn afresymol.

Cyhoeddi'r canlyniad

Ar ôl ymgynghori gyda'r ymgeiswyr ac asiantiaid ac ar ôl unrhyw ailgyfrif, bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn cyhoeddi'r pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd ac yn datgan yr ymgeisydd sydd â'r nifer mwyaf o bleidleisiau fel yr ymgeisydd i'w (h)ethol i fod yr AS ar gyfer yr etholaeth.

Cydraddoldeb nifer pleidleisiau

Os caiff dau neu fwy o ymgeiswyr yr un nifer o bleidleisiau, a byddai un bleidlais arall yn golygu bod un ymgeisydd yn cael ei ethol, mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) benderfynu rhyngddynt drwy hap. Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn penderfynu ar y dull o ddewis drwy hap.

Y Comisiwn Etholiadol
3 Bunhill Row
London EC1Y 8YZ
Ffôn 0333 103 1929
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
www.comisiwnetholiadol.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwylio etholiadau a rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei hygrededd.

© Y Comisiwn Etholiadol 2017

Rhoi pleidleiswyr yn gyntaf

Y Comisiwn Etholiadol

Cyfrif pleidleisiau yn etholiad cyffredinol Senedd y DU

Pwy yw pwy yn y cyfrif

Mae nifer o bobl yn rhan o'r cyfrif mewn etholiad, ond rydych yn debygol o ddod ar draws y canlynol:

- Y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) – y person sy'n gyfrifol am yr etholiad
- Dirprwy Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) – byddant yn cynorthwyo'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) drwy gydol y cyfrif
- Goruchwylwyr – byddant yn goruchwylio'r timau cyfrif ac yn adrodd i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a'i (d)dirprwyon
- Rhai sy'n cyfrif – byddant yn cael eu rhannu'n dimau cyfrif a byddant yn cyfrif y papurau pleidleisio a'r pleidleisiau

Amseriad y cyfrif

Mewn etholiad Senedd y DU, mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gymryd camau rhesymol i gychwyn cyfrif y pleidleisiau o fewn pedair awr o gau'r bleidlais am 10pm.

Mae dau gam i unrhyw gyfrif etholiadol: yn gyntaf bydd yr holl staff cyfrif yn cyfri'r nifer o bapurau pleidleisio yna, cyfrir y pleidleisiau ar y papurau pleidleisio. Mae'n rhaid bod yr ail gam wedi cychwyn erbyn 2am.

Gallai nifer o ffactorau effeithio ar pryd gellir cychwyn cyfrif y pleidleisiau, er enghraifft daearyddiaeth yr etholaeth a faint o amser mae'n cymryd i gael y blychau pleidleisio i mewn o'r gorsafoedd pleidleisio.

Beth sy'n digwydd yn y cyfrif?

Blychau pleidleisio yn cyrraedd

Bydd staff yn danfon y blychau pleidleisio sy'n cynnwys pleidleisiau post a'r blychau pleidleisio o'r gorsafoedd pleidleisio i leoliad y cyfrif. Bydd pob blwch gorsaf bleidleisio wedi cael rhif penodol a bydd yn cael ei wirio wrth i'r blwch gyrraedd.

Cam cyntaf y cyfrif: cyfrif y nifer o bapurau pleidleisio

Mae'r cam yma'n hanfodol gan ei fod yn gwirio y rhoddir cyfrif am yr holl bapurau pleidleisio a bod y nifer o bapurau pleidleisio a ddanfonwyd i'r cyfrif yn cyd-fynd â'r nifer a ddisgwyliwyd.

Yn y cam hwn bydd staff y cyfrif yn cymharu'r nifer o bapurau pleidleisio ym mhob blwch pleidleisio yn erbyn yn gyfrif papurau pleidleisio. Ffurflen yw hon sy'n cael ei chwblhau gan y Swyddog Llywyddu ym mhob gorsaf bleidleisio yn cyfrif yr holl bapurau pleidleisio sydd wedi'u rhoi ganddynt. Rhoddir cyfrif am bleidleisiau post mewn modd tebyg.

Agorir y blychau pleidleisio a'u gwagio ar y byrddau. Dangosir y blychau pleidleisio i bawb sy'n bresennol.

Mae timau cyfrif yn cyfrif a chofnodi'r nifer o bapurau pleidleisio ym mhob blwch pleidleisio. Pan fo'r nifer o bapurau pleidleisio yn cydweddu â'r nifer a ddisgwylir, mae'r papurau pleidleisio yn barod i fynd ymlaen i ail gam y cyfrif.

Lle nad ydynt, bydd gofyn i'r tîm cyfrif i ailgyfrif y papurau pleidleisio hyd nes bod y niferoedd y cydweddu, neu hyd nes y cyfrir yr un nifer ddwywaith o'r bron. Caiff unrhyw wahaniaethau rhwng y nifer a ddisgwylir a'r nifer yn y blwch pleidleisio eu cofnodi.

Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn paratoi datganiad yn nodi faint o bapurau pleidleisio a dderbyniwyd ym mhob blwch o'i gymharu â faint o bapurau pleidleisio a ddisgwyliwyd. Bydd y datganiad hwn yn cael ei ddarparu i ymgeiswyr ac asiantiaid.

Ail gam y cyfrif: cyfrif y pleidleisiau ar y papurau pleidleisio

Caiff papurau pleidleisio o wahanol flychau pleidleisio eu cymysgu i gynnal cyfrinachedd y bleidlais.

Rhoddir y papurau pleidleisio i dimau cyfrif fydd yn sortio papurau pleidleisio yn ôl ymgeisydd. Rhoddir papurau pleidleisio nad ydynt wedi'u marcio gan 'X' yn y blwch nesaf at ymgeisydd i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) neu i ddirprwy i'w barnu - gelwir y rhain yn bapurau pleidleisio 'amheus'. Cyn belled â bod bwriad y pleidleisiwr yn glir, bydd y bleidlais yn cael ei derbyn fel un ddilys a'i chyfrif.

Os nad yw hi'n bosibl i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) weld bwriad y pleidleisiwr, caiff y papur pleidleisio ei wrthod a nodir y rheswm dros wrthod. Gelwir y rhain yn bleidleisiau a 'wrthodwyd'.

Ar ôl i'r sortio gael ei gwblhau, bydd y timau cyfrif yn cyfrif y nifer o bleidleisio a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd.